Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 12 Mai 2022 am 10.00am.

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB), Philip Blaker (PB), Julie Brannan (JB), Hannah Rowan (HR), Anne-Marie Duffy (AMD), Michael Griffiths (MG), Graham Hudson (GH), David W Jones (DWJ), John Latham (JL), Sharron Lusher (SL) a Jayne Woods (JW)

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Ashok Ahir (AA), Mark Pender (MP), June Jenkins (JJ) (Eitem 8), Jo Moriarty (JM) (Eitem 8), Kerry Price (KP) (Eitem 9), Lisa Evans (LE) (Eitem 9).

Yn arsylwi: Syed Ahmed, prosiect Llwybr i'r Bwrdd.

Ymddiheuriadau: Alison Standfast (AS) a Mike Keoghane a Kelly Murphy o Lywodraeth Cymru.

1. Croeso

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, yn enwedig Syed Ahmed a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel sylwedydd fel rhan o brosiect Llwybrau i'r Bwrdd.

1.2. Ar ran y Bwrdd fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch Hannah ar ei phartneriaeth sifil ddiweddar, a nododd y Bwrdd y newid dilynol yn ei henw i Hannah Rowan.

1.3. Adroddodd GH am wrthdaro buddiannau posibl gan ei fod ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda CBAC mewn perthynas ag adolygiad o'u systemau cyfrifiadurol. Nid oedd unrhyw gontract na chytundeb yn ei le ar hyn o bryd, ond byddai'n rhoi gwybod i'r Cadeirydd pe bai'r sefyllfa hon yn newid.

2. Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2022 a Diweddariad ar y Camau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar fân newidiadau.

2.2. Nododd y Bwrdd, yn dilyn y cyfarfod diwethaf, fod y cynllun busnes bellach wedi'i gwblhau a bod y gofrestr risg wedi'i rhannu ar ffurf Excel ar gyfer y cyfarfod hwn.

2.3. Mewn perthynas ag Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2024, cadarnhawyd bod HR wedi darparu ei sylwadau a bod y ddogfen hefyd wedi bod yn destun adolygiad gan y tîm cyfreithiol, ac o ganlyniad i hynny roedd nifer o

welliannau wedi'u gwneud. Roedd y Bwrdd Rheoli nawr yn ystyried y newidiadau hyn cyn cwblhau'r ddogfen yn derfynol.

2.4. Darparodd aelodau'r Bwrdd a fu'n ymwneud â'r prosiect Llwybr i'r Bwrdd adborth ar eu profiadau ac awgrymu y dylai aelodau'r Bwrdd dderbyn mwy o wybodaeth ar y dechrau am natur y prosiect a sut y mae disgwyl iddyn nhw weithio gyda mentoreion gan y rheolwr prosiect allanol i ganiatáu iddyn nhw ddarparu'r cymorth gorau posibl i'w mentoreion.

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Darparodd y Cadeirydd adroddiad llafar i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y canlynol:

- Roedd y Cadeirydd, PB ac aelodau eraill o'r tîm gweithredol wedi cyfarfod yn ddiweddar â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, lle darparwyd diweddariadau ar waith cymwysterau galwedigaethol ôl-16 a haf 2022. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu sefydlu gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac roedd y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 26 Mai 2022.
- Mynychodd cynrychiolwyr Cymwysterau Cymru gyfarfod caeedig o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 27 Ebrill lle rhoddwyd diweddariadau ar ein gwaith mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol, haf 2022 a Cymwys ar gyfer y dyfodol. Roedd hon wedi bod yn sesiwn ddefnyddiol ac roedd cyfarfod dilynol pellach wedi'i drefnu.

- Roedd nifer o gyfarfodydd eraill wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid amrywiol i helpu i ddatblygu cysylltiadau cryfach a chael gwell dealltwriaeth o waith Cymwysterau Cymru.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

4.1 Cyflwynodd PB ei adroddiad Prif Swyddog Gweithredol a oedd yn crynhoi'r gwaith ar draws y sefydliad nad oedd wedi'i gynnwys mewn mannau eraill ar yr agenda. Adroddodd PB, ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, bod nifer o sgyrsiau cadarnhaol wedi digwydd gyda grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd ColegauCymru ynghylch adolygiad cyflym Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd rhai pryderon hefyd wedi'u codi ynglŷn ag Adeiladu, a byddai'r rhain yn cael eu hystyried.

4.2 Fel rhan o'r gwaith parhaus ar y cyfrifon blynyddol, tynnodd PB sylw'r Bwrdd bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau Cymwysterau Cymru wedi cynyddu o 12.8% i 16.3%. Roedd hyn oherwydd bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cymharol fach ac felly gallai newidiadau bach mewn personél arwain at newidiadau sylweddol i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yn ddiweddar roedd rhai uwch aelodau o staff benywaidd wedi gadael, ac yn dilyn recriwtio'n ddiweddar roedd nifer o fenywod wedi ymuno â Cymwysterau Cymru, ond ar y pwynt isaf yn eu graddfa gyflog. Nodwyd y gellid

archwilio'r mater hwn ymhellach yn Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wrth ystyried y cyfrifon blynyddol.

4.3 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud gan aelodau'r Bwrdd:

- O ran y materion sy'n cael eu hwynebu wrth weithredu'r system gyllid newydd, gofynnwyd a fyddai'r digolledu am gostau Cymwysterau Cymru oherwydd oedi a gafodd ei achosi gan gyflenwyr yn cael ei gynnwys mewn contractau tebyg yn y dyfodol. Ymatebodd PB fod hyn bob amser yn ystyriaeth, er bod angen cydbwyso hyn yn erbyn cyflenwyr yn prisio amodau o'r fath yn eu cynigion tendro a allai arwain at gostau cyffredinol uwch i'r sefydliad.

- Gofynnwyd a fyddai adroddiad gwersi a ddysgwyd yn cael ei gyhoeddi o adolygiad cyflym Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chadarnhawyd y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir yn manylu ar y canfyddiadau.

- Cafodd y ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu mabwysiadu gan Cymwysterau Cymru ac a gafodd eu hamlinellu yn yr adroddiad eu trafod, a nodwyd bod tystiolaeth o gynnydd mewn materion iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc a sengl o ganlyniad i ynysu wedi'i achosi gan weithio gartref. Dywedodd PB, er y byddai gofyn i staff ddod i mewn i'r swyddfa am ddau ddiwrnod yr wythnos, nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i ddau ddiwrnod a gallai staff ddod i mewn am fwy o ddiwrnodau pe bydden nhw'n dymuno. Trafodwyd hefyd faterion ynghylch cynaliadwyedd, o ran cymudo a gweithwyr yn gorfod cynhesu eu cartrefi yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

5. Diweddariad Cymwys ar gyfer y dyfodol - cwblhau gwaith llunio'r cymwysterau TGAU newydd a defnyddio dull graddol o'u cyflwyno

5.1 Cyflwynodd EG y papurau canlynol:

- Adroddiad sy'n darparu diweddariad cyffredinol ar brosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol; ac

- Adroddiad pellach a oedd yn nodi sut roedd Cymwysterau Cymru yn bwriadu casglu adborth ar, a chwblhau gwaith llunio, cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig wedi'u gwneud ar gyfer Cymru; datblygu a chymeradwyo'r cymwysterau newydd hyn bob yn dipyn; a chytuno ar fanylion dull mwy graddol gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

5.2 Dywedodd EG fod Cymwysterau Cymru wedi dod i'r casgliad bod graddfa gyffredinol y newid a oedd ynghlwm wrth bob cam o'r broses diwygio TGAU yn

creu risg o oedi mewn rhai pynciau; naill ai wrth gymeradwyo manylebau terfynol, neu wrth ddarparu digon o adnoddau a hyfforddiant i alluogi athrawon a dysgwyr i baratoi'n effeithiol ac yn hyderus. Ar ben hynny, roedd yr heriau a achoswyd gan yr adferiad yn sgil pandemig yn sylweddol, a byddai'n amsugno cryn ymdrech gan weithlu addysgu a oedd eisoes wedi'i flino gan bwysau'r pandemig dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Byddai maint a chyflymder diwygio'r gyfres TGAU gyfan erbyn Medi 2025 yn rhoi pwysau ychwanegol ar bob rhan o'r system, gyda dim lwfans ar gyfer llithro ar unrhyw adeg yn y broses. Ar y llaw arall, byddai cynllunio o'r cychwyn ar gyfer dull graddol o ddiwygio TGAU, gydag eglurder ynghylch pa bynciau fydd ar gael yn gyntaf, yn caniatáu i'r system gyfan gynllunio a pharatoi ar gyfer newid gyda mwy o ffocws a hyder. Y dull graddol hwn oedd bellach yn cael ei gynnig.

5.3 Dywedwyd na fyddai dull graddol yn atal ysgolion uwchradd rhag gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn unol â llinell amser cyhoeddedig Llywodraeth Cymru. Byddai'r gofynion dylunio cytûn ar gyfer pob TGAU newydd ar gael yn nhymor yr haf 2022/23, a fyddai'n rhoi syniad clir i ysgolion o'r cyfeiriad, gan gynnwys y galw a chwmpas y cynnwys a'r cymysgedd o ddulliau asesu y bydd pob cymhwyster yn eu cynnwys. Byddai'r ffordd y bydd y broses Gymeradwyo yn cael ei rhedeg hefyd yn helpu i ddarparu mwy o wybodaeth gynnar i ysgolion am fanylion cymwysterau newydd.

5.4 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd bu'r Bwrdd yn trafod risgiau posibl y dull graddol arfaethedig, a sut y byddai hyn yn rhyngweithio â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Cydnabuwyd hefyd y cyfyngiad ar adnoddau o fewn Cymwysterau Cymru, yn ogystal â'r adnoddau a oedd y tu allan i reolaeth Cymwysterau Cymru ond yr oedd y diwygiadau'n dibynnu arnynt. Trafodwyd hefyd y materion sy'n ymwneud â disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, ac ynghylch cyfathrebu'r dull gweithredu graddol i randdeiliaid.

5.5 Ar ddiwedd y drafodaeth, mynegodd aelodau'r Bwrdd gefnogaeth i ddull graddol priodol o ddiwygio TGAU. Nodwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu i drafod y mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog yn yr wythnosau nesaf. O ystyried arwyddocâd y mater hwn i brosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol yn gyffredinol ac i weithrediad Cwricwlwm i Gymru, byddai adroddiad pellach ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cymwysterau Cymru ym mis Gorffennaf. Byddai hyn yn cael ei lywio drwy barhau i drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a CBAC.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd:

- **Y diweddariad cyffredinol ar brosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol;**
- **Y dull arfaethedig o gasglu adborth ar lunio TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig a'u cwblhau;**
- **Y rhesymau dros ystyried dull graddol o ddatblygu a chymeradwyo TGAU newydd a goblygiadau gwneud hynny.**

6. Trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2022

6.1 Cyflwynodd JR adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol yn ystod haf 2022. Darparwyd diweddariadau ar y meysydd canlynol:

- Cofrestriadau;
- Dull Graddio;
- Cynlluniau wrth gefn y gyfres arholiadau;
- Absenoldeb arholiadau;
- Cynllunio ar gyfer Diwrnod y Canlyniadau.

6.2 Adroddodd JR y byddai ystadegau swyddogol ar gofrestriadau ar gyfer cyfres yr haf yn cael eu cyhoeddi ar 20 Mai 2022 a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y papur yn cael ei rhoi i'r Bwrdd ymlaen llaw er mwyn gallu rheoli'r gyfres yn effeithiol. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd nodi na ddylen nhw drafod y wybodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod cyn rhyddhau'r ystadegau.

6.3 Nododd y Bwrdd y drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Rheoleiddio ar y dull arfaethedig o ymdrin â dysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch sy'n methu pob uned/cydran yn haf 2022. Cytunwyd, o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gradd drwy lwybr amgen, na ddylid sefydlu llwybr amgen yng Nghymru ar gyfer dysgwyr sy'n colli eu holl unedau cymhwyster ac eithrio'r TGAU mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, a oedd, oherwydd addasiadau, bellach yn cynnwys un uned arholiad yn unig ac felly'n peri mwy o risg na fyddai dysgwyr yn cyflawni'r cymhwyster.

6.4 Nodwyd pe bai Lloegr yn penderfynu defnyddio llwybr amgen, yna'r cynnig fyddai i Gymwysterau Cymru wneud yr un peth yng Nghymru fel nad yw dysgwyr Cymru o dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion, ac os felly byddai cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd yn cael ei gynnull i ystyried hyn.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar asesiadau a dyfarnu trefniadau ar gyfer haf 2022

7. Addasiadau ar gyfer Gaeaf 22/23 a Haf 23

7.1 Cyflwynodd JR adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dull arfaethedig o ddarparu mesurau lliniaru i ddysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ystod gaeaf 2022/23 a haf 2023.

7.2 Adroddwyd yn dilyn trafodaethau gyda CBAC mai'r farn gyffredin oedd y dylid rhoi mesurau lliniaru ar waith, yn enwedig ar gyfer cyfres Tachwedd 2022. O ystyried bod y pandemig wedi amharu rhywfaint ar addysg a dysgu dysgwyr a oedd yn sefyll cymwysterau yn 2023 yn ystod eu blynyddoedd arholiadau, ni chynigiwyd parhau i drosglwyddo yn ôl i brosesau cyfresi arholiadau arferol.

7.3 Awgrymwyd felly y byddai gwybodaeth ymlaen llaw yn fath addas o liniaru y gellid ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch (Cymwysterau Cyffredinol - GQs). Mae gwybodaeth ymlaen llaw yn darparu gwybodaeth i ddysgwyr a chanolfannau am ba bynciau y bydd papurau arholiad yn canolbwyntio arnynt, felly'n helpu i leihau baich paratoi ar gyfer arholiadau a ffocysu gwaith adolygu. Roedd CBAC wedi darparu gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer rhai cymwysterau Cymru yn unig eleni ac, er na chyfeiriwyd atynt fel gwybodaeth ymlaen, cyflawnodd y gostyngiad yn y gofynion asesu mewn llawer o Gymwysterau Cyffredinol rôl debyg. Gwybodaeth ymlaen llaw hefyd oedd y dull o liniaru ar gyfer colli dysgu a ddefnyddiwyd ar draws Cymwysterau Cyffredinol yn Lloegr eleni.

7.4 Nodwyd bod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi ystyried y mater hwn yn ei gyfarfod diweddar a'i fod wedi argymell bod y Bwrdd yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres arholiadau Gaeaf 2022/23 a Haf 2023, fel ffurf o liniaru ar gyfer colli amser addysgu a dysgu.

7.5 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd croesawyd cydbwysedd y cynigion gan aelodau'r Bwrdd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Cytunodd y Bwrdd i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer Gwybodaeth Ymlaen Llaw ar gyfer cyfres arholiadau Gaeaf 2022/23 a Haf 2023, fel ffordd o liniaru amser dysgu ac addysgu a gollwyd (fel yr amlinellwyd yn y papur).

8. 14-16 Cynnig Ehangach – cyflwyniad ar ganfyddiadau'r adolygiad

8.1 Cyflwynodd CT adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau ymgysylltiad â rhanddeiliaid y 'Cynnig Ehangach' mewn perthynas â nodweddion cynnig cymhwyster cydlynol a chynhwysol ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru. Roedd yn nodi'r fethodoleg a chanfyddiadau'r gwaith a'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r cynnig ehangach. Yn y cyflwyniad a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad, darparwyd rhai awgrymiadau cychwynnol hefyd ar gyfer fframwaith cymwysterau a allai fynd i'r afael â'r egwyddorion hyn, a nodwyd bod tîm y Cynnig Ehangach yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid i brofi'r awgrymiadau hyn.

8.2 Daeth JJ a JM i'r cyfarfod a rhoi cyflwyniad manwl ar ganfyddiadau'r adolygiad.

8.3 Wedi'r cyflwyniad, trafodwyd y mater o gydraddoldeb parch / cydnabyddiaeth rhwng cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ac adroddwyd y byddai hyn yn cael ei godi fel rhan o'r broses ymgysylltu a amlinellwyd yn y cyflwyniad, yn

enwedig mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd cymaroldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y cymwysterau hyn.

8.4 Ar ôl trafodaeth bellach, amlygodd CT mai'r cynnig oedd ymgynghori ar yr hyn a awgrymwyd ar gyfer fframwaith cymhwyster ychydig yn hwyrach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, ac o ganlyniad byddai'r cam dadansoddi yn cael ei wthio'n ôl i flwyddyn ariannol 2023-24. Felly gofynnwyd am ddiweddaru'r cynllun gweithredol i adlewyrchu hyn, gan dynnu'r cam dadansoddi o gynllun 2022-23.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd ganfyddiadau'r adolygiad 'Cynnig Ehangach' gan gytuno ar y newid i'r cynllun gweithredol fel y nodwyd uchod.

9. Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2022/23

9.1 Mynychodd LE ar gyfer yr eitem hon a chyflwynodd ddiweddariad ar Gynllun Gweithredol 2022/23. Adroddwyd bod pob un o'r pum blaenoriaeth weithredol yn cael eu hystyried yn wyrdd. Adroddwyd bod blaenoriaethau gweithredol newydd wedi eu hychwanegu at y cynllun gweithredol yn deillio o Amcanion newydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2024.

9.2 Codwyd pryder ynghylch y sgôr goch barhaus o ran gweithredu'r system gyllid newydd a gofynnodd aelodau'r Bwrdd am sicrwydd bod y mater hwn yn cael ei reoli'n briodol. Dywedodd PB fod hyn wedi cael ei drafod mewn nifer o gyfarfodydd Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chadarnhaodd fod rheolaeth weithredol iawn o'r trefniadau cytundebol gyda'r cyflenwr, ac roedd AS mewn cysylltiad rheolaidd â rheolwr gyfarwyddwr yr uned fusnes dan sylw. Roedd y broses weithredu ar stop ar hyn o bryd tra bod y tîm cyllid yn canolbwyntio ar ddiwedd y flwyddyn, ond roedd cynllun yn ei le ar gyfer ailddechrau ac roedd Cymwysterau Cymru wedi nodi pum maes allweddol yr oedd angen i'r cyflenwr fynd i'r afael â nhw cyn y byddai ymrwymiad cadarn yn cael ei wneud i barhau â nhw. Roedd cyfreithwyr Cymwysterau Cymru hefyd yn ymwneud â hyn i sicrhau bod y sefyllfa'n glir pe bai Cymwysterau Cymru'n dymuno symud i ffwrdd o'r cyflenwr hwn ac ail-gaffael mewn mannau eraill.

9.3 Ychwanegodd KP fod y cyflenwr yn cael pob cyfle i brofi y gallen nhw ddarparu cynnyrch oedd yn bodloni gofynion y tîm cyllid ac y gellid ei gyflawni'n amserol. Pe na bai hyn yn bosibl, yna byddai Cymwysterau Cymru'n archwilio'r opsiynau eraill sydd ar gael iddo.

9.4 Ychwanegodd aelod o'r Bwrdd, o ystyried ei bwysigrwydd i Cymwysterau Cymru, y dylai'r mater hwn ymddangos ar y gofrestr risg strategol. Nodwyd bod Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Adnoddau wedi derbyn adroddiadau ar y mater hwn yn y gorffennol a chytunwyd y dylid dosbarthu'r diweddaraf o'r rhain i aelodau'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd cyfan yn ei weld.

9.5 Cyflwynodd KP yr adroddiad Diweddaru ar y Gyllideb, a oedd yn amlinellu sefyllfa alldro 2021-22 a hefyd yn rhoi diweddariad ar gyllideb 2022/23 ar ddiwedd mis Ebrill.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd Gynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2022/23**
- **Mae'r adroddiad briffio diweddaraf ar weithredu'r system gyllid newydd i'w dosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod.**

10. Adroddiad Rheoli Risg

10.1 Rhoddodd MP yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnwys y Gofrestr Risgiau Strategol. Nodwyd, fel y gofynnwyd yn y cyfarfod diwethaf, fod y gofrestr risg wedi'i darparu ar ffurf Excel er mwyn hwyluso'r defnydd.

10.2 O ran y risg yn ymwneud ag adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol (VQ) Llywodraeth Cymru, darparwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol.

10.3 Awgrymwyd y gallai rhai o'r penderfyniadau y byddai'r Bwrdd yn eu gwneud dros y misoedd nesaf fod â risgiau i enw da Cymdeithasau Cymru, ac y gallai fod angen i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygu'r gofrestr risg yn y dyfodol i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu lliniaru'n ddigonol.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd yr adroddiad rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol.

11. Diweddariadau'r Pwyllgorau

11.1 Derbyniodd y Bwrdd Adroddiadau Sicrwydd y Cadeirydd o'r cyfarfodydd pwyllgor canlynol:

- Pwyllgor Rheoleiddio
- Grŵp Cynghori Ymchwil

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiadau diweddaru'r Pwyllgor.

12. Rhagolwg

12.1 Nododd y Bwrdd y Rhagolwg a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ag MP pe byddai unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu'r dyfodol.

12.2 Trafodwyd trefniadau'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, a nodwyd y byddai'r Bwrdd yn cyfarfod wyneb yn wyneb mewn cyfarfodydd bob yn ail ac y byddai dau

ddiwrnod datblygu'r Bwrdd yn cael eu trefnu yn ystod y flwyddyn nesaf. Gofynnwyd i'r dyddiadau hyn gael eu cadarnhau cyn gynted â phosibl.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40pm